Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru | South Wales Fire and Rescue Service

**RHEOLWR IECHYD, DIOGELWCH A LLES**

**Parhaol – 37 awr yr wythnos**

**Rhif y Swydd: 504404**

**GRADD 16**

**Cyflog: £46,464 i £47,420 y flwyddyn**

****Nid oes angen i ymgeiswyr blaenorol wneud cais****

Mae cyfle cyffrous wedi codi o fewn yr Adran Rheoli Risg Weithredol ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân, Parc Busnes Forest View, Llantrisant ar gyfer rôl Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Lles Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am arwain Tîm Iechyd, Diogelwch a Lles proffesiynol sy'n darparu cyngor iechyd, diogelwch a lles arbenigol cywir gan gynnwys cymorth ymarferol ar bob agwedd ar reoli iechyd a diogelwch o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.
Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cynghori Awdurdod Tân Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, rheolwyr a gweithwyr yn effeithiol i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol ac i ddatblygu diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol ar draws y sefydliad cyfan.

SYLWER - Mae'r swydd hon yn ymgorffori'r rôl fel y person cyfrifol am reoli Iechyd, Diogelwch a Lles o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru fyn unol â gofynion darpariaethau statudol (Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch 1999).

Bydd y rôl hefyd yn cynnwys rheoli ein tîm Iechyd, Diogelwch a Lles. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus felly yn gyfrifol am gyflawni'r holl ddyletswyddau rheoli llinell sy'n ymwneud â'r tîm, gan gynnwys cynnal Adolygiadau Datblygu Perfformiad, rheoli perfformiad, rheoli gweithgareddau i ddatrys materion gweithredol a dydd i ddydd a gweithredu fel mentor i staff.

Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol ond nid yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.
I gael gwybod mwy am y swydd hon, mae croeso i chi gysylltu â Christian Hadfield Rheolwr Ardal a Phennaeth Rheoli Risg Gweithredol drwy law e-bost: c-hadfield@decymrutan.gov.uk neu ffonio: 01443 232533.

Cyn penodi, bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus ymgymryd â'r canlynol:-

- Prawf Cyffuriau ac Alcohol
- Gwiriad Manwl y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Dylid llenwi Ffurflenni Cais ar-lein trwy ein system e-recriwtio, y gellir ei chyrchu trwy ein gwefan: https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-gyda-ni/swyddi-diweddaraf/ Os oes angen fersiwn papur, anfonwch e-bost at: personel@decymru-tan.gov.uk Sylwch y bydd y system e-recriwtio yn hysbysu pob ymgeisydd o'r canlyniadau trwy law'r cyfeiriad e-bost a ddarperir yn y cais; sicrhewch eich bod yn gwirio pob ffolder post yn rheolaidd.

Dylai pob ymgeisydd mewnol sy'n gwneud cais ei gyflwyno trwy eu porth CORE, gan ddewis "Swyddi Gwag Cyfredol" o'r tab ar y chwith.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw **12:00 canol dydd ar 5ed o Orffenaf 2024**.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac rydym yn croesawu gohebiaeth yn y naill iaith neu'r llall. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddiannus ar y cam Llunio'r Rhestr Fer yn cael y cyfle i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau llafar, a chwestiynau cyfweliad). Bydd trefniadau'n cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweliad a gallant gynnwys Cyfieithu a/neu Gyfieithu ar y Pryd.

**Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn credu yng ngwir werth cael gweithlu amrywiol ac rydym am annog ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i ymgeisio.**

Living Wage Employer

disability confident COMMITTED